


CDLI Newydd Caerdydd Cytundeb Cyflawni Diwygiedig

July 2023



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Cynnwys

1: Introduction	3
2: The Community Involvement Scheme (CIS)	11
3: The Timetable	19
4: Monitoring and Review	22
Appendix A: Consultation Bodies	23
Appendix B: Flow Chart Summarising Replacement LDP Preparation	29
Appendix C: Table Summarising Involvement In Replacement LDP Stages.....	30
Appendix D: Risk Management.....	34
Atodiad E: Copi o Lythyr Cytundeb i'r ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru (Dyddiad i'w gadarnhau).....	36

Rhan 1: Cyflwyniad

Diben y Cytundeb Cyflawni hwn

- 1.1 Ar 28 Ionawr 2016, mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) Caerdydd. Mae CDLI sydd wedi ei ddiweddarau yn rhan hanfodol o system gynllunio a arweinir gan gynllun yng Nghymru. Yn hyn o beth, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal adolygiad llawn o'r CDLI mabwysiedig bob pedair blynedd o'r dyddiad mabwysiadu.
- 1.2 Mae adolygiad llawn o Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006-2026 wedi'i gynnal, ac mae ei ganfyddiadau wedi'u nodi yn Adroddiad yr Adolygiad a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021 . Bydd y CDLI diwygiedig yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2021 a 2036. Mae paratoi a chynnal Cytundeb Cyflawni yn ofyniad allweddol wrth baratoi CDLI diwygiedig. Rhaid i'r Cytundeb Cyflawni gynnwys:
 - **Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC)** - yn nodi sut fydd y Cyngor yn cynnwys cyrff ymgynghori a'r cyhoedd wrth baratoi CDLI Newydd; ac
 - **Amserlen** ar gyfer paratoi a mabwysiadu'r CDLI Newydd, ac ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r adroddiad cynaliadwyedd, yr Adroddiad Monitro Blyneddol a'r canllawiau cynllunio atodol (CCA).
- 1.3 Mae'r Cytundeb Cyflawni yn rhan bwysig o'r broses o baratoi CDLI Newydd. Mae'n nodi sut a phryd y bydd y Cyngor yn rhoi cyfleoedd i ymgynghoreion a'r gymuned leol gymryd rhan yn y broses, fel y nodir yn y ddeddfwriaeth, y rheoliadau a chanllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru. Bydd cyflawni'r CDLI Newydd yn unol â'r Cytundeb yn un o brofion cadernid y cynllun a archwiliwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio (gweler paragraff 1.23). Os oes llithriad yn yr amserlen y cytunwyd arni rhaid ei diwygio yn unol â Rheoliadau'r CDLI.
- 1.4. Paratowyd y Cytundeb hwn yn unol â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:
 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2015; a
 - Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Argraffiad 3, 2020).
- 1.5. Cymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni yn wreiddiol gan y Cyngor ar 18 Mawrth 2020 a chytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru (LIC) ar 30 Mawrth 2021 (gweler Atodiad E). Mae'r cynnydd o ran pharatoi'r cynllun wedi mynd yn ei flaen yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, oherwydd yr angen i ymgymryd â gwaith sylfaen dystiolaeth pellach i lywio'r cam nesaf o baratoi'r CDLI Newydd y Strategaeth a Ffebrir, mae angen adolygu'r amserlen ar gyfer paratoi camau o'r cynllun yn y dyfodol. Mae Rhan 3 o'r ddogfen hon yn cynnwys manylion amserlen arfaethedig paratoi CDLI Newydd diwygiedig ac mae Atodiad B yn cynnwys siart llif sy'n crynhoi'r prif gamau paratoi. Pan gaiff ei gytuno bydd y Cytundebdiwygiedig ar gael ar wefan y Cyngor ac i'w archwilio gan y cyhoedd yn Neuadd y Sir. Caiff ei adolygu'n

barhaus ac, os bydd angen, ei ddiwygio ymhellach yn unol â Rheoliadau'r CDLI (gweler Rhan 4). Bydd copïau o'r Cytundeb hefyd ar gael - mae manylion cyswllt llawn ar gael ar dudalen 12.

Paratoi'r CDLI Newydd

1.6. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi CDLI Newydd sy'n nodi ei amcanion ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Nghaerdydd dros gyfnod y Cynllun Newydd (2021 i 2036) a'i bolisiau i'w gweithredu. Mae'r cyfnod hwn yn caniatáu 12 mlynedd i weithredu'r Cynllun Newydd yn dilyn y bwriad i'w fabwysiadu yn 2025, a thrwy hynny fod yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar hyd y Cynllun Newydd. Nodau'r Cynllun Newydd yw:

- Cyflawni datblygu cynaliadwy
- Adlewyrchu dyheadau lleol ar gyfer y Ddinas, yn seiliedig ar weledigaeth y cytunwyd arni gan y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill;
- Darparu sail ar gyfer penderfyniadau rheoli datblygu rhesymegol a chyson;
- Llywio twf a newid, sy'n effeithio ar iechyd alles mewn modd cadarnhaol wrth ddiogelu amrywiaeth, cymeriad ac amgylcheddau sensitif lleol; a
- Dangos sut a lle y bydd newid yn digwydd dros gyfnod y Cynllun Newydd.

1.7. Wrth baratoi'r CDLI Newydd, rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried:

- Ystod eang o ddeddfwriaeth, polisiau a mentrau eraill, ar lefelau llywodraeth Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol. O dan y Ddeddf Ymadael, bydd deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE megis rheoliadau amgylcheddol presennol sy'n gweithredu Cyfarwydebau'r UE a oedd mewn grym yn union cyn diwedd y cyfnod pontio yn parhau i fod yn rhan o gyfraith ddomestig y DU ar ôl 31 Rhagfyr 2020 nes y caiff ei diwygio gan deddfwriaeth newydd. O ystyried hyn maent yn parhau i fod yn berthnasol i'r broses o baratoi CDLI; ac
- Ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol perthnasol.

1.8. Mae Deddf 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor, wrth baratoi'r CDLI Newydd, roi sylw i:

- Bolisiau cenedlaethol presennol:
- Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer yr ardal
- Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru; a
- Yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael ar gyfer gweithredu'r Cynllun Newydd.

1.9. Prif ffynonellau polisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yw:

- Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021)
- Polisi Cynllunio Cymru, (Rhifyn 11, (Chwefror 2021);
- Nodiadau Cyngor Technegol (Cymru) (NCT) (dyddiadau amrywiol);
- Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: MTANS (dyddiadau amrywiol);
- Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol (LIC, Rhifyn 3, 2006)

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AS/AAS) ac asesiadau cysylltiedig eraill

1.10. Rhaid i'r CDLI Newydd fod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel sy'n ofynnol dan Gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2001/42/EC a Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2015). Bydd yr AS/AAS yn Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) hefyd yn cynnwys asesiad o effeithiau iechyd a chydoldeb.

1.11. Mae'r rhain yn arfau i sicrhau bod polisiau yn y CDLI Newydd yn adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn ystyried effeithiau sylweddol y Cynllun Newydd ar yr amgylchedd. Bydd y Cyngor yn mabwysiadu dull integredig o arfarnu ac asesu lle caiff materion economaidd a chymdeithasol eu hystyried ochr yn ochr ag elfennau amgylcheddol.

1.12. Ceir canllawiau ar sut y dylid cynnal yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn:

- Rheoliadau Asesiadau ar Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (y "Rheoliadau AAS")
- A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive' (Medi 2005);
- Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol (Rhifyn 3, 2006)

1.13. Mae'r AC/AAS yn broses ailadroddol a fydd yn cael ei chynnal drwy gydol cyfnod paratoi'r cynllun. Bydd chwe cham allweddol:

- Sefydlu cyd-destun polisi, nodi a dogfennu'r sylfaen dystiolaeth, nodi materion cynaliadwyedd a datblygu amcanion a dangosyddion ACI/AAS;
- Ymgynghori ag ymgynghoreion Penodol ar yr Adroddiad Cwmpasu ACI;
- Cyhoeddi Adroddiad ACI ar opsiynau strategol a'r Strategaeth a Ffefrir;
- Cyhoeddi Adroddiad ACI Adnewo gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol (gyda'r CDLI Newydd);
- Cyhoeddi adroddiad ACI terfynol yn dilyn Adroddiad yr Arolygydd a'i fabwysiadu;
- Monitro a gweithredu'r ACI.

1.14. Ar ddechrau'r broses ACI/AAS, bydd cyfle i randdeiliaid roi sylwadau ar Adroddiad Cwmpasu'r ACI sy'n nodi sut y bydd y broses ACI/AAS yn cael ei

chynnal. Bydd y sail dystiolaeth i ganfyddiadau'r gwaith ACI/AAS yn cael eu gweld ar gamau allweddol yn y broses o baratoi'r CDLI Newydd; Caiff adroddiadau eu paratoi a fydd yn destun ymgynghori â rhanddeiliaid, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffebrir a'r ymgynghoriad ar y CDLI Adneuo Newydd. Bydd Adroddiad ACI Terfynol yn cael ei gyflwyno ynghyd â holl ddogfennau eraill y CDLI Newydd pan gânt eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w harchwilio. Ymgynghorir â Chyrff Amgylcheddol statudol ar yr holl gamau y cyfeirir atynt uchod a bydd deialog barhaus ehangach gyda'r cyrff hyn wrth i'r broses fynd rhagddi.

- 1.15. Yn ogystal â'r prosesau ACI/AAS, bydd y Cyngor hefyd yn cynnal Arfarniad o Reoleiddio Cynefinoedd (ARhC) ar gyfer y CDLI Newydd wrth iddo gael ei baratoi.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

- 1.16. Daw'r gofyniad am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, yn benodol Erthygl 6(3), sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau defnydd tir, gan gynnwys CDLIau, fod yn destun Sgrinio ARhC i benderfynu a yw unrhyw gynllun [neu brosiect] yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun, neu ar y cyd â phrosiectau eraill. Yng Nghymru, nodir y gofynion ar gyfer ARhC, gan gynnwys addasiadau arfaethedig i gynlluniau presennol, yn Rhan 6 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rhan 2 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.

- 1.17. Mae proses yr ARhC yn dilyn cyfres o Gamau; bydd y rhain yn cael eu cynnal ar gyfer Adolygiad y CDLI, yn ôl yr angen, er mwyn bodloni gofynion y Rheoliadau:

- **Cam 1 - Sgrinio ARhC:** penderfynu a yw Adolygiad y CDLI yn debygol o gael effaith sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd;
- **Cam 2 – Asesiad Priodol:** Os yw'r Sgrinio ARhC yn nodi bod Adolygiad y CDLI yn debygol o gael effeithiau sylweddol, bydd angen lefel arall o asesiad i ystyried a allai Adolygiad y CDLI gael effaith andwyol ar gyfanrwydd un neu fwy o safleoedd Ewropeaidd, naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, o ystyried eu hamcanion cadwraeth sefydledig a'u statws cadwraeth. Os nodir y potensial ar gyfer effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safle, dylai'r Asesiad Priodol hefyd ystyried mesurau lliniaru i reoli'r effeithiau a nodwyd, er mwyn osgoi effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safle; a
- **Cam 3 a 4 – Ystyried Dewisiadau Amgen a Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig:** Dim ond lle mae effeithiau sylweddol yn parhau ar ddiwedd Cam 2 y broses ARhC y mae angen ystyried dewisiadau amgen a Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig.

- 1.18. Bydd y broses ARhC yn cael ei chynnal ar y cyd â'r ACI (gan ymgorffori AAS) er mwyn sicrhau dull integredig o asesu. Bwriedir i'r broses gydredeg â

chynnydd y Cynllun Newydd ac y bydd yn rhan ailadroddol o Adolygiad y CDLI, a fydd yn cynnwys ystyried yr holl opsiynau polisi a safle sy'n dod i'r amlwg. Ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru drwy gydol proses yr ARhC.

Asesiadau Sylfaen Dystiolaeth

1.19. Er mwyn llywio'r adolygiad o'r CDLI Newydd bydd angen diweddaru gwahanol elfennau o'r sylfaen dystiolaeth a lywiodd y Cynllun Datblygu Lleol presennol sydd wedi dyddio ac y mae angen ei ddiweddaru a/neu ei ddisodli er mwyn deall gofynion defnydd tir y Ddinas hyd at 2036 yn llawn yn ogystal ag ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol neu bolisi sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r cynllun presennol. Dylai rhanddeiliaid fod yn ymwybodol y bydd y wybodaeth hon yn helpu i lywio'r cam opsiynau strategol, yr ymgynghorir arno yn hydref 2021. Mae sampl o astudiaethau sylfaen tystiolaeth posibl y gallai fod eu hangen i lywio'r CDLI newydd yn cynnwys:

1. **Rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd** – i lywio gofyniad annedd y CDLI Newydd hyd at 2036.
2. **Asesiad o Anghenion Tai Lleol** – i lywio'r math o ddeiliadaeth a maint y gofyniad tai a maint yr annedd i gyfateb i'r math o aelwyd a phroffil oedran y boblogaeth yn y dyfodol.
3. **Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr** - i nodi'r angen am leiniau parhaol a thramwy hyd at 2036.
4. **Asesiad Trafnidiaeth** – i asesu effaith graddfa a dosbarthiad y datblygiad a nodir yn y CDLI Newydd.
5. **Diweddariad ar yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth** – i asesu'r angen am dir cyflogaeth sy'n addas ar gyfer pob sector cyflogaeth a dyheadau cyflogaeth rhanbarthol yn y dyfodol.
6. **Asesiad o Anghenion Manwerthu** – i nodi a oes gofyniad am arwynebedd llawr ychwanegol i helpu i lywio dull y Cyngor o reoli bywiogrwydd a hyfywedd canol ein dinas, ein canolfannau dosbarth a'n canolfannau lleol.
7. **Astudiaeth Gallu Trefol** – i fesur faint o dir llwyd a allai gyfrannu at yr angen am dai yn y ddinas hyd at 2036.
8. **Adolygiad o Ffiniau Aneddiadau** – i ddiffinio ffiniau clir o amgylch aneddiadau ar ffurf ffiniau anheddiad.
9. **Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy** – i roi cyngor ar dargedau a throthwyon cyraeddadwy a hyfyw ar gyfer tai fforddiadwy.
10. **Gofynion Seilwaith dros gyfnod y cynllun** – i adeiladu ar Gynllun Seilwaith presennol Caerdydd ac ymestyn i gwmpasu cyfnod arfaethedig y Cynllun Newydd.
11. **Asesiad Ynni Adnewyddadwy** – tystiolaeth i gefnogi targedau lleihau carbon a lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd.
12. **Asesiad Strategol o Berygl Llifogydd** – i nodi ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.
13. **Asesiad Seilwaith Gwyrdd** – i nodi data perthnasol am amgylchedd naturiol Caerdydd.
14. **Ail Adolygiad o Ddatganiad Technegol Rhanbarthol De Cymru ar Agregau** – yn nodi anghenion agregau hyd at 2036.

- 1.20. Nid yw'r uchod yn rhestr ddiffiniol a gallasai rhai gofynion diweddarau'r sylfaen dystiolaeth ychwanegol ddod i'r amlwg wrth i ddiwygio'r cynllun fynd rhagddo. Bydd deialog barhaus ag Awdurdodau Lleol eraill yn helpu i sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd a'r cysondeb mwyaf posibl o ran casglu/rhannu tystiolaeth a chytuno ar fethodolegau lle y bo'n bosibl.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- 1.21. Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015. Nod y Ddeddf yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru o ran y saith nod llesiant a hefyd i nodi pum ffordd o weithio. Mae'r saith nod llesiant yn ymwneud â:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru fwy cyfartal;
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu; a
- Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

- 1.22. Y pum ffordd o weithio yw hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal. O ystyried mai datblygu cynaliadwy yw egwyddor sylfaenol graidd y CDLI Newydd (a'r AAS); mae cysylltiadau clir rhwng y CDLI Newydd a Deddf LICD. Fel un o ofynion y Ddeddf, rhaid cynhyrchu Cynllun Llesiant Lleol (CLILI). Mae'r y cynllun hwn yn edrych ar les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y sir a bydd ganddo gysylltiadau clir â'r CDLI Newydd. Bydd Deddf LICD a CLILI yn cael eu hystyried yn llawn drwy gydol y gwaith o baratoi'r CDLI Newydd, a fydd yn dilyn y pum ffordd o weithio.

Archwiliad annibynnol o gadernid

- 1.23. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei Gynllun Newydd, rhaid iddo ei osod ar adnau i'w archwilio gan y cyhoedd ac ar gyfer cyflwyno sylwadau, ac yna ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w archwilio gan Arolygydd a benodir gan Lywodraeth Cymru. Mae archwilio'r CDLI Newydd yn broses annibynnol ar gyfer penderfynu a yw'r cynllun yn sylfaenol gadarn. O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gyda'r cynllun a'r sylwadau a dderbynnir wrth adneuo, rhaid i'r arolygydd benderfynu a yw'r cynllun yn bodloni'r 3 phrawf cadernid canlynol a nodir mewn canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio:

- Prawf 1 – Ydy'r cynllun yn ffitio? (h.y. a yw'n glir bod y CDLI Newydd yn gyson â chynlluniau eraill?);
- Prawf 2 – A yw'r cynllun yn briodol? (h.y. a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?);
- Prawf 3 – A fydd y cynllun yn cyflawni? (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?).

1.24. Yn dilyn yr archwiliad bydd yr Arolygydd yn llunio adroddiad yn argymhell newidiadau gofynnol i'r CDLI Newydd ynghyd â rhesymau dros y newidiadau. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y cwestiwn a yw'r CDLI newydd yn gadarn ac os yw Arolygydd o'r farn nad yw'r cynllun yn sylfaenol gadarn, ni chaiff y Cynllun ei argymhell i'w fabwysiadu. Bydd casgliadau'r Arolygydd yn gyfrwymol ac oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ymyrryd, rhaid i'r Cyngor dderbyn y newidiadau sy'n ofynnol gan yr Arolygydd a mabwysiadu'r CDLI Newydd fel y'i diwygiwyd.

Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

1.25. Bydd y CDLI newydd yn cynnwys digon o bolisiau i ddarparu'r sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, mae gan CCA rôl gefnogol bwysig o ran darparu canllawiau manylach neu ganllawiau sy'n benodol i safleoedd ar y ffordd y caiff polisiau CDLI Newydd eu cymhwyso. Dogfennau anstatudol yw'r rhain a fwriedir i ymhelaethu ar y polisiau a'r cynigion yn y CDLI Newydd. Ni allant gyflwyno polisi newydd ac nid ydynt yn destun archwiliad annibynnol ond byddant yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

1.26. Bydd yr angen am unrhyw CCA Newydd neu ddiwygiedig (sy'n gysylltiedig â pholisïau presennol y Cynllun Datblygu Lleol) wrth i'r CDLI Newydd gael ei baratoi yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau gan ystyried yr angen am ganllawiau newydd ynghyd â digonolrwydd y fframwaith polisi presennol fel y'i nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol ac a gynhwysir mewn canllawiau cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, bydd y CCA yn destun ei broses ymgynghori ei hun.

1.27. Gall ymgynghori â rhanddeiliaid wrth i'r CDLI newydd gael ei baratoi ddatgelu'r angen i gynhyrchu CCA newydd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r CDLI newydd. Mewn achosion o'r fath, bwriedir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y CCA ochr yn ochr ag ymgysylltu ehangach o ran y CDLI Newydd. Bydd rhanddeiliaid yn cael gwybod am unrhyw ymgynghoriadau o'r fath.

1.28. Ni ellir mabwysiadu CCA sy'n ymwneud â pholisïau arfaethedig yn y CDLI Newydd yn ffurfiol tan ar ôl i adroddiad rhwymol yr Arolygydd ddod i law ar y CDLI Newydd ac mae'n amlwg nad oes unrhyw newid i'r dull polisi.

Monitro ac Adolygu

1.29. Bydd y Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd y CDLI Newydd yn rheolaidd yn erbyn gofynion y Cytundeb Cyflawni er mwyn sicrhau bod yr amserlen yn cael ei chadw a bod ymgysylltiad y cyhoedd fel y'i nodir yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC) yn cael ei fodloni. Bydd angen i'r Cyngor gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau i'r Cytundeb Cyflawni (CC) cyn i Lywodraeth Cymru gytuno. Efallai y bydd angen diwygio'r CC os bydd yr amgylchiadau canlynol, sydd y tu hwnt i reolaeth yr ACLI, yn digwydd wrth baratoi'r CDLI Newydd:

- Newid sylweddol i'r adnoddau sydd ar gael i baratoi'r CDLI Newydd.
- Mae'r gwaith o baratoi'r CDLI Newydd ar ei hôl hi h.y. mwy na 3 mis.

- Newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth Ewropeaidd, y Deyrnas Gyfunol neu Gymru sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y broses o baratoi CDLI Newydd.
- Unrhyw newid arall mewn amgylchiadau a fydd yn effeithio'n sylweddol ar gyflawni'r CDLI Newydd yn unol â'r CC.
- Newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau.

1.30. Bydd amserlen wedi'i diweddarau yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn y cam Adneuo. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd o'r amserlenni ar gyfer y camau sy'n weddill (h.y. disodli camau dangosol gyda chamau pendant). Caiff yr amserlen ddangosol ei haildiffinio o fewn 3 mis i ddiwedd y cyfnod Adneuo ffurfiol a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru i gytuno arni.

Rhan 2: Y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC)

Nodau'r cynllun

- 2.1. Mae Rheoliadau CDLI yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth ag ystod eang o randdeiliaid i baratoi'r CDLI Newydd, gan gynnwys cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol (gweler Atodiad A) a'r cyhoedd.
- 2.2. Mae'r CCC hwn yn nodi sut a phryd y bydd y Cyngor yn rhoi cyfleoedd i bawb sydd â diddordeb yn y CDLI Newydd yng Nghaerdydd gymryd rhan yn y gwaith o'i baratoi. Wrth wneud hynny, y nod yw meithrin cymaint o gonsensws â phosibl ynghylch strategaeth gyffredinol y cynllun.

Egwyddorion a dulliau ymgysylltu â'r gymuned

- 2.3. Bydd yr egwyddorion ymgynghori canlynol yn llywio dull y Cyngor o gynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill wrth baratoi'r CDLI Newydd:
 - **Ymrwymiad** – Bydd y Cyngor yn ceisio darparu cyfleoedd i'r gymuned gyfan (gwahanol grwpiau oedran, grwpiau cymunedol lleol, grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau nodweddion gwarchoddedig) gan gynnwys busnesau, i gymryd rhan ar gamau priodol yn y broses gan gynnwys deunydd 'fformat annhechnegol sy'n ystyriol o blant' fel rhan o'r broses i annog ymgysylltu ehangach.
 - **Cynwysoldeb** – Bydd y Cyngor yn annog cyfranogiad gweithredol pawb sydd â diddordeb yn y CDLI Newydd, neu y gallai'r CDLI Newydd effeithio arnynt, gan gynnwys cynhyrchu dogfennau hawdd eu defnyddio a defnyddio technegau ymgynghori hawdd eu defnyddio er mwyn annog ymgysylltu ehangach â'r gymuned, gan gynnwys gyda phlant a phobl ifanc.
 - **Priodoldeb** – Bydd y Cyngor yn ceisio ymgysylltu â'r gymuned drwy'r dulliau mwyaf priodol fel y'u pennwyd drwy ymgynghoriad ar y ddogfen hon.
 - **Tryloywder a hygyrchedd** – Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael ar-lein ac yn ymgymryd â chynnwys pobl mewn ffordd dryloyw ac agored ac yn ceisio gwneud y defnydd gorau posibl o dechnoleg newydd fel ymgynghori rhithwir a chyfryngau cymdeithasol.
 - **Atebolrwydd** – Bydd y Cyngor yn cyhoeddi canlyniadau ymgysylltu â'r gymuned ar-lein ac yn ceisio sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael gwybod am ganlyniad eu hymwneud.
 - **Cynhyrchiant** – Bydd y Cyngor yn ceisio defnyddio ymgynghori rhithwir ac ymgysylltu â'r gymuned i sicrhau cymaint o gonsensws â phosibl ar gynnwys y CDLI Newydd.
 - **Realaeth** – Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r broses yn deall ac yn parhau'n realistig ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni yng nghyd-destun deddfwriaeth berthnasol, canllawiau Llywodraeth Cymru, a'r adnoddau sydd ar gael.

- 2.4. Mae'r Cyngor yn bwriadu meithrin cymaint o gonsensws â phosibl yn ystod y broses o baratoi CDLI Newydd ac mae'n gobeithio y bydd pob parti yn ymgysylltu'n weithredol o'r cychwyn cyntaf. Mae paragraffau 2.5 i 2.8 yn rhoi amlinelliad bras o rai o'r dulliau allweddol a ddefnyddir tra bod paragraffau 2.15 i 2.34 yn amlinellu prif gamau'r broses o baratoi CDLI Newydd ynghyd â chrynodeb o'r cyfleoedd i gymryd rhan ym mhob cam. Mae Atodiad C yn cynnwys tabl sy'n crynhoi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori hyd at y cam adneuo. Caiff y Cytundeb ei adolygu o fewn 3 mis i adneuo'r CDLI Newydd a chaiff ymgysylltu priodol o'r cam adneuo hyd at fabwysiadu ei gynnwys yn yr adolygiad hwnnw.

Bydd gwefan y Cyngor yn cael ei diweddarau i ddangos y wybodaeth ddiweddaraf. Bydd modd cyflwyno sylwadau ar ffurf electronig (y fformat a ffefrir) a hefyd yn ysgrifenedig. Gwneir ymdrechion i wneud y prosesau ymgynghori mor glir a hygyrch â phosibl. Bydd staff ar gael yn ystod yr wythnos yn ystod oriau swyddfa arferol i ddelio ag unrhyw ymholiadau a gellir cysylltu â hwy fel y nodir isod:

Ystafell Dîm y CDLI

Ystafell 219, Neuadd y Sir

Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW Ffôn 029 2087 2088

E-bost: LDP@cardiff.gov.uk

Cyfeiriad y Wefan: www.caerdydd.gov.uk

- 2.5. Er bod y Cyngor yn darparu ystod eang o gyfleoedd i gael gafael ar wybodaeth ac i gymryd rhan ym mhroses y CDLI Newydd, mae'n amlwg bod cyfyngiadau o ran adnoddau i'r graddau o ymgysylltu sydd yn bosibl. Yn ogystal, mae'n bwysig yr ymdrinnir â phob ymgynghorai mewn modd teg a chyfartal. Gan ystyried y ddau bwynt yma, ni chynigir fod Swyddogion yn mynychu cyfarfodydd a drefnir gan grwpiau unigol. Fodd bynnag, pwysleisir bod Swyddogion ar gael drwy gydol y broses, fel yr amlinellir uchod, a chynghorir ymgynghoreion yn gryf i ddefnyddio'r cyfleuster hwn pe bai angen gwybodaeth neu gyngor.
- 2.6. Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi crynodeb o ddisgwyliadau ymgynghoreion yn ystod y broses o baratoi CDLI Newydd:
- Ymrwymiad i'r broses gan gynnwys adeiladu consensws
 - Codi materion defnydd tir dilys
 - Cymryd rhan yn y ddadl gyda meddwl agored
 - Pob parti i gyflwyno'r lefel briodol o wybodaeth fel y nodir
 - Ymatebion wedi eu gwneud o fewn cyfnodau rhagnodedig
 - Trin Swyddogion gyda pharch dyledus
 - Os oes unrhyw amheuaeth am y broses, cysylltwch â Thîm y CDLI am gyngor

Grwpiau a fydd yn rhan o'r gwaith o baratoi cynlluniau

2.7. Bydd y Cyngor yn ceisio cynnwys y grwpiau canlynol wrth baratoi'r CDLI Newydd:

- **Aelodau o'r cyhoedd, busnesau, perchnogion tir, datblygwyr ac asiantau** - Mae gan y Cyngor gronfa ddata sy'n cael ei chynnal i gynnwys manylion unrhyw bartïon sydd wedi gofyn am gael gwybod am broses y CDLI Newydd. Gwneir ymdrech i ymgysylltu â chymunedau, busnesau, sefydliadau lleol, tîrfeddianwyr a datblygwyr i sicrhau ystod eang o adborth.
- **Cynghorau Cymuned** - Maent yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ledaenu gwybodaeth yn eu hardal leol a byddant yn gyswllt allweddol o ran cynnwys eu hardaloedd lleol yn effeithiol. Ymgynghorir â Chynghorau Cymuned ar bob cam o broses y CDLI Newydd ac fe'u hanogir i fanteisio ar y cyfle hwn i godi ymwybyddiaeth o hyn i'w cymunedau lleol.
- **Grwpiau Partneriaeth** - Bydd cydgysylltu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau bod y CDLI Newydd yn cyd-fynd â'r Cynllun Llesiant Lleol. Mae'r BGC hefyd yn cynrychioli ystod eang o bartïon â diddordeb a bydd eu hymwneud â phroses y CDLI Newydd yn helpu drwy ddarparu data a sail dystiolaeth yn ogystal ag ehangu cwrpas ymgysylltu â phartïon sydd wedi cael cyswllt cyfyngedig neu ddim cyswllt â phroses y cynllun datblygu yn y gorffennol, ond sydd â diddordeb yng Nghaerdydd.
- **Cyrff Ymgynghori Ychwanegol** - Mae Atodiad A yn darparu rhestr o'r cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol. Bydd y cyrff ymgynghori hyn yn cael eu cynnwys drwy gydol proses y CDLI Newydd ym mhob un o'r camau ffurfiol ac yn anffurfiol, fel y bo'n briodol.
- **Grwpiau Anodd eu Cyrraedd** - Grwpiau anodd eu cyrraedd a'r rhai nas clywir yn aml yw'r grwpiau hynny nad ydynt wedi cymryd rhan yn draddodiadol ym mhroses baratoi'r cynllun. Felly, bydd angen ymdrech ychwanegol i sicrhau bod y grwpiau hyn yn cymryd rhan ym mhroses y CDLI Newydd. Gellir ymgysylltu â'r grwpiau hyn drwy ddefnyddio partneriaethau a grwpiau sy'n bodoli eisoes lle bynnag y bo modd.

Dulliau Cynnwys

2.8. Mae'r Cyngor yn ceisio rhoi cyhoeddusrwydd i broses y CDLI Newydd ar bob cam a chyrraedd cymaint o'r gymuned â phosibl, fel y nodir yn yr adran uchod, i roi gwybod i bobl am y cam CDLI Newydd a sut y gallant gymryd rhan. Gwneir hyn trwy:

- Gyswllt uniongyrchol (h.y. drwy lythyr neu e-bost)
- Drwy Gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol Cyngor Caerdydd
- Ymgysylltu ag Aelodau drwy weithdai penodol, sesiynau galw heibio i Aelodau ac mewn adroddiadau i gyfarfodydd priodol y Cyngor.
- Defnyddio Rhwydweithiau Amgylcheddol/Cymunedol ac Economaidd y Cyngor, Panel Dinasyddion a Chyngor Ieuencid Caerdydd;
- Bydd holl wybodaeth a dogfennau'r CDLI Newydd ar gael ar wefan y Cyngor.
- Bydd arddangosfeydd gwybodaeth i'r cyhoedd, sesiynau ymgysylltu a chyfarfodydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb pan fo'n bosibl gan ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru ar faterion o'r fath. Bydd ymgysylltu

ac ymgynghori rhithwir drwy offer technolegol ar y we fel gweminarau hefyd yn cael eu defnyddio.

Adborth

- 2.9. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod adborth yn cael ei ddarparu ar-lein cyn gynted â phosibl ar ganlyniad ymgysylltu ac ymgynghori drwy gydol proses baratoi'r Cynllun Newydd.
- 2.10. Bydd adborth gan y Cyngor o ran digwyddiadau/ymarferion ymgynghori ar y ffurfiau canlynol:
- Llythyr cydnabod neu e-bost yn rhoi manylion cyswllt ac yn manylu ar sut y bydd y Cyngor yn ymdrin â'r gynrychiolaeth
 - Manylion y camau nesaf ym mhroses baratoi'r Cynllun Newydd
- 2.11. Bydd deisebau a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad ar y Cynllun Newydd yn cael eu cydnabod drwy lythyr neu e-bost at gyflwynydd y ddeiseb yn unig. Bydd hyn yn cynnwys manylion cyswllt ac yn nodi sut y bydd y Cyngor yn ymdrin â'r materion a godwyd yn y ddeiseb. Bydd canllawiau penodol ar y cwmpas a'r gweithdrefnau wrth ddefnyddio deisebau yn cael eu sefydlu a byddant ar gael cyn pob cam ymgynghori ffurfiol.

Proses gwneud penderfyniadau'r Cyngor a chynnwys aelodau etholedig lleol

- 2.12. Bydd penderfyniadau ar y Cynllun Cyfnewid a'i gynnwys arfaethedig yn cael eu gwneud gan y Cyngor llawn fel arfer gydag argymhellion gan y Cabinet. Mae'r Cabinet a'r Cyngor yn cyfarfod bob mis. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Gweithgor Swyddog Corfforaethol y CDLI i helpu i baratoi'r CDLI Newydd yn unol â'r amserlen.
- 2.13. Bydd y Cyngor yn sefydlu proses graffu barhaus a fydd yn dangos tystiolaeth o'i ganfyddiadau i'r Pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad. Trefnir hyfforddiant ar gyfer Aelodau unigol o'r Cyngor ac ymgynghorir â hwy drwy gydol proses baratoi'r Cynllun Newydd a'u hannog i godi ymwybyddiaeth a chefnogi'r ymgysylltu â'u cymunedau lleol.

Defnydd o'r Gymraeg

Y Gymraeg ac ymgysylltiad Dwyieithog

- 2.14. Mae Safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Gynghorau i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Strategaeth Gymraeg ar gyfer 2017 – 2022, bydd gofynion y strategaeth gorfforaethol a Safonau'r Gymraeg yn cael eu cynnal ym mhob cam o'r CDLI Newydd. Bydd ymgysylltu dwyieithog yn cael ei wneud yn y ffyrdd canlynol:

1. Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Pan dderbynnir gohebiaeth yn Gymraeg a bod angen ateb, anfonir hwn yn Gymraeg;

2. Bydd yr holl lythyrau ymgynghori, ffurflenni sylwadau, hysbysiadau cyhoeddus (gan gynnwys hysbysiadau safle) a chylchlythyrau yn ddwyieithog;
3. Bydd unrhyw dudalennau ar wefan y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a'r negeseuon cyfryngau cymdeithasol a gyhoeddir ar twitter yn ddwyieithog;
4. Bydd unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ddwyieithog pan fydd cais wedi'i wneud ymlaen llaw. Mae angen hysbysu ymlaen llaw er mwyn darparu gwasanaeth cyfieithu; a
5. Gellir sicrhau bod dogfennau drafft ar gael yn Gymraeg os gofynnir amdanynt. Bydd y CDLI Newydd ar ôl ei fabwysiadu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Camau allweddol paratoi'r Cynllun Newydd a chyfleoedd i gymryd rhan

- 2.15. Mae'r Rheoliadau CDLI yn nodi'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cymryd rhan ac ymgynghori â'r cyhoedd wrth baratoi Cynllun Newydd. Mae'r Adran hon yn rhoi mwy o fanylion ynghylch sut y gall rhanddeiliaid gymryd rhan yn y gwahanol gamau o baratoi CDLI Newydd Caerdydd. Caiff gwybodaeth ei diweddarau'n gyson ar wefan y Cyngor a bydd unrhyw ddigwyddiadau neu ymgynghoriadau yn cael eu anfon at bob ymgynghorai gan gynnwys hysbysiadau ffurfiol yn y wasg leol pan fo angen.

Cam 1: Yr Adroddiad Adolygu a Chytundeb Cyflawni (Ion 2021 i Fawrth 2021) (Rheoliad 9)

- 2.16. Crynodeb: Penderfynu ar y weithdrefn adolygu sydd i'w dilyn yn yr Adroddiad Adolygu a sicrhau cyfranogiad ehangach wrth baratoi'r Cytundeb Cyflawni. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi'r CDLI Newydd a sut y gall rhanddeiliaid gymryd rhan yn y broses. Mae'r cyfleoedd i gymryd rhan yn cynnwys Ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni Adroddiad Adolygu Drafft yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2021.

Cam 2: Sail dystiolaeth - (Rhag 2020 – Mawrth 2024)) (Rheoliad 14)

- 2.17. Crynodeb: Cyn y gall y Cyngor ddatblygu'r amcanion strategol a fydd yn ffurfio fframwaith y CDLI Newydd, mae'n hanfodol iddo gael dealltwriaeth glir o'r nodweddion a'r materion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd deinamig sy'n bodoli yng Nghaerdydd. Felly bydd y Cyngor yn casglu data i adolygu a datblygu'r sylfaen dystiolaeth. Bydd y Sail Dystiolaeth gyffredinol yn gasgliad helaeth o ddata o bob pwnc perthnasol. Bydd astudiaethau newydd yn cael eu comisiynu a bydd data newydd yn cael ei gasglu lle bo angen i sicrhau bod y gronfa ddata dystiolaeth mor gynhwysfawr â phosibl. Bydd y sylfaen dystiolaeth yn llywio'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Bydd tystiolaeth newydd sy'n dod i'r amlwg yn ystod camau diweddarach y gwaith o baratoi'r Cynllun Newydd yn cael ei hasesu a bydd ymateb priodol yn cael ei wneud.

2.18. Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r sylfaen dystiolaeth bydd y Cyngor yn gwahodd datblygwyr a thirfeddianwyr i gyflwyno safleoedd datblygu ymgeisiol i'w cynnwys o bosibl yn y Cynllun Newydd. Mae hyn yn rhan o ymarfer casglu gwybodaeth ac ni ddylid ei ddehongli fel ymrwymiad y bydd safleoedd o'r fath yn cael eu datblygu yn y CDLI Newydd. Wrth gyflwyno safleoedd o'r fath, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr a thirfeddianwyr gynnwys digon o wybodaeth i ganiatáu i asesiad cadarn o'r safle gael ei wneud.

2.19. Fel rhan o ddyletswydd y Cyngor i ymgymryd ag Arfarniad o Gynaliadwyedd ac AAS o'r Cynllun Newydd, bydd Adroddiad Cwmpasu ACI yn cael ei baratoi er mwyn ymgynghori arno a fydd yn nodi:

- Y materion a'r amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â hwy wrth helpu i gyflawni datblygu cynaliadwy drwy'r CDLI Newydd; a
- Y fframwaith arfaethedig ar gyfer arfarnu'r opsiynau strategol a pholisïau a chynigion manwl y CDLI Newydd.

2.20. Mae'r cyfleoedd i gymryd rhan (yn ystod 2021) yn cynnwys:

- Galw am gyflwyniadau Safleoedd Ymgeisiol am 12 wythnos yn dechrau ym mis Mai 2021
- Ymgynghoriad ar Adroddiad Cwmpasu ACI am 8 wythnos yn dechrau ym mis Mai 2021

Cam 3: Strategaeth a Ffeirir (Rheol. 14/15)

Cyfranogiad Cyn Adneuo (Mawrth 2021 - Mehefin 2023) (Rheoliad 14)

2.21. Crynodeb: Yn unol â Rheoliad 14 bydd y Cyngor yn ymgysylltu gydag unrhyw un sydd â diddordeb gan gynnwys y Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol (a restrir yn Atodiad A) yn ystod y gwaith o baratoi'r Strategaeth a Ffeirir. Mae'r cyfleoedd i gymryd rhan (yn ystod 2021) yn cynnwys:

- Ymgynghoriad ar weledigaeth/materion/amcanion drafft am 8 wythnos yn dechrau diwedd Mai 2021
- Ymgynghoriad ar opsiynau strategol am 10 wythnos yn dechrau diwedd Tachwedd 2021

2.22. Bydd hyn yn creu cyfle cynnar ar gyfer trafod cyn i'r Strategaeth a Ffeirir gael ei pharatoi.

Cam 4: Ymgynghoriad Cyn Adneuo (Gorffennaf 2023 i Fedi 2023) (Rheoliad 15)

2.23. Crynodeb: Bydd y cam hwn yn cynnwys ymgynghoriad statudol ar y Strategaeth a Ffeirir a lleoliadau strategol ar gyfer datblygiadau newydd ac Adroddiad ACI cysylltiedig (cyfnod statudol o 8 wythnos).

2.24. Cyfleoedd i gymryd rhan:

- Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir
- Ymgynghoriad ar yr adroddiad ACI cychwynnol

Cam 5: Adneuo cynigion y CDLI Newydd (Hyd 2023 i Fedi 2024) (Rheoliad 17)

2.25. Crynodeb: Wrth lunio'r ddogfen hon bydd y Cyngor yn rhoi sylw dyledus i'r ymarferion ymgynghori a'r digwyddiadau rhanddeiliaid a fydd yn mynd rhagddynt wrth ddrafftio polisïau a nodi safleoedd.

2.26. Bydd y Cynllun Adneuo Newydd yn destun ymgynghoriad statudol am gyfnod o 8 wythnos er mwyn caniatáu i unrhyw sylwadau gael eu gwneud gan unrhyw randdeiliad. Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir o ganlyniad i'r ymarfer ymgynghori ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ac ar wefan y Cyngor. Bydd y dogfennau sydd i'w cyhoeddi ar hyn o bryd yn cynnwys y CDLI Adneuo Newydd, Adroddiad yr ACI (gan ymgorffori Adroddiad Amgylcheddol yr AAS), rhestr o ddogfennau ategol a'r adroddiad ymgynghori cychwynnol (cyfnod statudol o 8 wythnos).

2.27. Cyfleoedd i gymryd rhan:

- Ymgynghoriad ar y CDLI Adneuo Newydd
- Ymgynghoriad ar yr Adroddiad ACI Terfynol

Cam 6: Cyflwyno CDLI Newydd i Lywodraeth Cymru (Mai 2025 (Dangosol)) (Rheoliad 22)

2.28. Crynodeb: Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyflwyno'r Cynllun Adneuo Newydd, yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig, y Cynllun Cynnwys Cymunedau, copïau o'r holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd, tystiolaeth ategol allweddol, yr Adroddiad Ymgynghori, yr adroddiad ar y newidiadau a awgrymwyd gan yr ACLI a Datganiad o'r prif faterion i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio. Yn dilyn y cyflwyniad hwn penodir Arolygydd i archwilio'r Cynllun Adneuo Newydd i benderfynu a yw'n bodloni gofynion paratoi Deddf 2004 ac a yw'n "gadarn" (yn unol â chyfeiriad adran 64(5) Deddf 2004). Bydd yr archwiliad hefyd yn ystyried sylwadau gan gynnwys gwrthwynebiadau a wnaed yn unol â'r Rheoliadau CDLI.

2.29. Cyfleoedd i gymryd rhan:

- Ar ôl ei gyflwyno, bydd y broses archwilio yn cael ei chynnal gan Arolygydd Annibynnol. Swyddog Rhaglen sy'n gweithio i'r Arolygydd fydd yn darparu'r pwynt cyswllt cyntaf i randdeiliaid sydd wedi gwneud Sylwadau Adneuo . Bydd gwybodaeth ar gael am y broses archwilio fydd ar y gweill.

Cam 7: Archwiliad annibynnol (Mai i Hydref 2025(Dangosol)) (Rheoliad 23)

2.30. Crynodeb: Bydd y Cyngor yn llunio Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Arolygiaeth Gynllunio cyn cyflwyno'r CDLI Adneuo Newydd. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi nodi na ddylai'r Archwiliad Annibynnol a chynhyrchu Adroddiad yr Arolygydd gymryd mwy na 12 mis.

2.31. Cyfleoedd i gymryd rhan:

- Bydd trefniadau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd yn y broses archwilio ar gyfer y bobl hynny sydd wedi gwneud Sylwadau Adneuo yn cael eu hysbysebu'n nes at yr amser (o leiaf 6 wythnos cyn agor yr archwiliad).

Cam 8: Adroddiad yr Arolygydd (Hydref 2025(Dangosol)) (Rheoliad 24)

2.32. Crynodeb: Unwaith y bydd yr Arolygydd yn fodlon nad oes angen rhagor o wybodaeth i lywio eu hystyriaeth o'r Cynllun Newydd, bydd yn cyhoeddi adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r archwiliad, ynghyd ag unrhyw newidiadau i'r Cynllun Adneuo Newydd a'r rhesymau dros yr argymhellion hynny. Bydd penderfyniadau'r Arolygydd yn rhwymo'r Cyngor. Nod yr Archwiliad Annibynnol yw sicrhau bod y Cynllun Newydd ar gam lle mae'n gadarn ac y gellir ei fabwysiadu'n ddiogel. Mae'n dilyn felly bod rhaid i unrhyw newidiadau a wneir gan yr Arolygydd fod yn amlwg gadarn.

Cam 9: Mabwysiadu (Tachwedd 2025 (Dangosol)) (Rheoliad 25)

2.33. Crynodeb: Ar ôl derbyn Adroddiad yr Arolygydd, yn dilyn cyfnod gwirio ffeithiau, mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu'r CDLI Newydd terfynol sy'n ymgorffori argymhellion yr Arolygydd o fewn 8 wythnos, oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ymyrryd. Ar neu cyn y diwrnod y mabwysiedir y CDLI Newydd, bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd ac yn sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio ac i'w weld ar wefan y Cyngor (www.cardiff.gov.uk). Bydd y CDLI Newydd yn dod yn weithredol ar y dyddiad y caiff ei fabwysiadu, a dylai cyhoeddi'r Cynllun Newydd terfynol ddilyn cyn gynted â phosibl (ar ôl i'r cyfnod her gyfreithiol o chwe wythnos ddod i ben).

Cam 10: Monitro (Hydref 2027 Dangosol)

2.34. Mae Adran 61 y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol barhau i adolygu materion a allai effeithio ar gynllunio a datblygu yn eu hardaloedd. Yn hyn o beth, bydd y Cyngor yn sefydlu gweithdrefnau monitro yn unol â chanllawiau yn Llawlyfr y CDLI a bydd yn llunio Adroddiad Monitro Blyneddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn.

Rhan 3: Yr amserlen

3.1 Mae Tabl 1 yn amlinellu amserlen arfaethedig ddiwygiedig y Cyngor ar gyfer cyflawni'r camau allweddol paratoi CDLI Newydd sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a'r Rheoliadau CDLI.

Cam Allweddol			
Diffiniol		O	gadael
1	Ymgynghoriad Adroddiad yr Adolygiad Drafft a Chytundeb Cyflawni a chyflwyno Adroddiad Adolygiad Terfynol i Lywodraeth Cymru	Ionawr 2021	Mawrth 2021
2	Paratoi Sylfaen Dystiolaeth <ul style="list-style-type: none"> Galw am Safleoedd Ymgeisiol - 12 wythnos Ymgynghoriad ar Adroddiad Cwmpasu ACI - 8 wythnos 	Rhag 2020 Mai 2021 Mai 2021	Mawrth 2024 Awst 2021 Gorffennaf 2021
3	Cyfranogiad Cyn Adneuo <ul style="list-style-type: none"> Ymgynghoriad ar weledigaeth/materion/amcanion drafft - 8 wythnos Ymgynghoriad ar opsiynau strategol -10 wythnos 	Mawrth 2021 Mai 2021 Tach 2021	Mehefin 2023 Gorffennaf 2021 Chwefror 2022
4	Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffeirir ac Adroddiad ACI Cychwynnol - 8 wythnos o ymgynghori statudol	Gorffennaf 2023	Medi 2023
5	Ymgynghoriad ar Gynllun Adneuo ac Adroddiad Terfynol yr ACI – 8 wythnos o ymgynghori statudol	Gorffennaf 2024	Medi 2024
Dangosol		O	gadael

6	Cyflwyno	Mai 2025	
7	Archwilio	Mai 2025	Hydref 2025
8	Adroddiad yr Arolygwyr	Hydref 2025	
9	Mabwysiadu gan y Cyngor	Tachwedd 2025	
10	Monitro a chynhyrchu AMB cyntaf	Hydref 2027	

Camau Diffiniol a Dangosol

- 3.2. Mae Camau 1-5, sy'n arwain at ac yn cynnwys adneuo, o dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor, a fydd yn gwneud pob ymdrech i gadw at y rhan hon o'r amserlen.
- 3.3. Mae gan y Cyngor lai o reolaeth dros y broses yng Nghyfnodau 6-9, sy'n dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys nifer y sylwadau adneuo a gofynion yr Archwiliad Annibynnol. Felly, mae'r amserlen ar gyfer y camau hyn yn ddangosol ar hyn o bryd.
- 3.4. Mae'r Rheoliadau CDLI yn egluro, o fewn 3 mis i gau'r adneuo, y bydd angen adolygu ac ailgyflwyno'r amserlen (h.y. y camau dangosol) ar ôl i'r Cyngor ymrwmo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Arolygiaeth Gynllunio.

Cyflawnadwyedd a rheoli risg

- 3.5. Ystyrir bod rhan ddiffiniol yr amserlen arfaethedig yn realistig ac yn gyraeddadwy ac yn ystyriol o:
- Gwmpas y gwaith yn ôl dealltwriaeth y Cyngor sy'n rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Newydd, gan roi sylw i'r rheoliadau a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
 - Yr adnoddau (staff a refeniw yn y bôn) y gall y Cyngor ymrwmo i baratoi'r Cynllun Newydd;
 - Strwythur presennol y Cyngor, ei strwythurau gwneud penderfyniadau, cylchoedd cyfarfodydd ac etholiadau yn y dyfodol.
- 3.6. Er y gwneir pob ymdrech i osgoi gwyrriad o'r amserlen hon, mae Atodiad D yn nodi nifer o risgiau posibl, ynghyd â dull arfaethedig y Cyngor o'u rheoli.

Adnoddau

- 3.7. O ran adnoddau staff, mae tîm bach o swyddogion yn Adran Cynllunio Strategol y Cyngor wedi'i neilltuo ar gyfer paratoi CDLI Newydd. Yn ogystal, bydd amrywiaeth o swyddogion eraill yn yr adran honno yn ogystal â Gwasanaethau eraill hefyd yn ymwneud â gwahanol agweddau ar lunio'r Cynllun Newydd gan gynnwys yr ACI a'r AAS.

- 3.8. Os oes angen, er mwyn ategu ei adnoddau ei hun, gall y Cyngor gyflogi ymgynghorwyr i wneud gwaith priodol a chynghori ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Aseiad Amgylcheddol Strategol y Cynllun Newydd.

Rhan 4: Monitro ac Adolygu

Cytundeb Cyflawni

- 4.1. Bydd y Cyngor yn monitro cynnydd yn erbyn y Cytundeb Cyflawni drwy baratoi'r CDLI Newydd, er mwyn sicrhau bod nodau ac egwyddorion y Cynllun Cynnwys Cymunedau yn cael eu bodloni yn unol â'r amserlen darged. Lle bo angen, bydd adroddiadau'n cael eu gwneud i Gabinet y Cyngor.
- 4.2. Ymhlith yr amgylchiadau lle y gallai fod angen adolygu a diwygio'r Cytundeb mae:
 - Os yw'r broses yn disgyn 3 mis neu fwy ar ei hôl hi;
 - Os oes angen unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau;
 - Os oes newid sylweddol yn yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor;
 - Os bydd deddfwriaeth, rheoliadau neu ganllawiau newydd Llywodraethau y Deyrnas Gyfunol neu Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i weithdrefnau neu dasgau newydd gael eu cyflawni; neu
 - Os bydd unrhyw newid arall mewn amgylchiadau yn effeithio'n sylweddol ar gyflawni'r Cynllun Newydd yn unol â'r Cytundeb.
- 4.3. Os bydd angen adolygu'r Cytundeb cyn neu ar ôl yr adolygiad dangosol (a amlinellir isod) anfonir Cytundeb diwygiedig at Lywodraeth Cymru i gytuno arno. Unwaith y cytunir arno, bydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor.

Y CDLI Newydd ar ôl ei fabwysiadu

- 4.4. Ar ôl iddo gael ei fabwysiadu bydd y Cyngor yn monitro'r Cynllun Newydd yn flynyddol ac yn adrodd ar y canfyddiadau mewn Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Bydd arolygon neu ddiwygiadau i'r cynllun yn y dyfodol yn mynd drwy'r un camau paratoi â'r cynllun newydd gwreiddiol ac o fewn 6 mis i'r penderfyniad i gynnal arolwg bydd y Cyngor yn cyhoeddi amserlen ar gyfer adolygu'r cynllun. Bydd y Cyngor hefyd yn cymhwyso'r egwyddorion cyffredinol a amlinellir yn y CCC pan fydd yn adolygu ac yn cyflawni unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun. Bydd adolygiad llawn o'r cynllun yn cael ei gynnal o leiaf unwaith bob pedair blynedd.

Atodiad A: Cyrff Ymgynghori

Mae'r canlynol yn rhestr o gyrff ymgynghori penodol a chyffredinol yr ymgynghorir â hwy yn ystod y camau perthnasol a amlinellir wrth baratoi'r CDLI Newydd. Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr a gellir ychwanegu ac ymgynghori â sefydliadau a chyrrff eraill sy'n dymuno cymryd rhan ac ymgynghori â hwy lle y bo'n briodol.

Yn ogystal â'r rhestr hon, gellir ymgynghori ag unrhyw unigolyn neu grwpiau.

Ymgynghoreion Mewnol

Ymgynghori â hwy bob cam wrth baratoi'r CDLI Newydd

- Cynghorwyr Sir Caerdydd
- Gwasanaethau Cyngor Caerdydd

Ymgynghoreion Allanol

Cyrff Ymgynghori Penodol

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r cyrrff ymgynghori penodol canlynol ar bob cam wrth baratoi'r CDLI Newydd:

- Llywodraeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cadw
- Network Rail Infrastructure Limited (Gorllewin a Chymru) – Eiddo
- Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth (o ran swyddogaethau blaenorol yr awdurdod Rheilffyrdd Strategol)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Felindre
- Cynghorau Cymuned Caerdydd
 - Cyngor Cymuned Llys-faen
 - Cyngor Cymuned Pentref Lloneirwg
 - Cyngor Cymuned Pentyrch
 - Cyngor Cymuned Radur a Phentre-poeth
 - Cyngor Cymuned Sain Ffagan
 - Cyngor Cymuned Tongwynlais
- Awdurdodau Lleol Cyfagos ac Awdurdodau De-ddwyrain Cymru
 - Cyngor Dinas Bryste
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
 - Cyngor Dinas Casnewydd
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
 - Cyngor Bro Morgannwg
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngorau Cymuned cyfagos o fewn Siroedd eraill
 - Caerffili
 - Cyngor Tref Caerffili
 - Rhondda Cynon Taf
 - Cyngor Cymuned Llantrisant
 - Cyngor Cymuned Llanilltud Fardre
 - Cyngor Cymuned Pont-y-clun
 - Cyngor Cymuned Ffynnon Taf
 - Casnewydd
 - Cyngor Cymuned Graig
 - Cyngor Cymuned Maerun
 - Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-fedw
 - Cyngor Cymuned Gwynllŵg
 - Bro Morgannwg
 - Cyngor Cymuned Llandochoau
 - Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd
 - Cyngor Tref Penarth
 - Cyngor Cymuned Llanbedr-y-fro
 - Sain Siorys a Llansanffraid-ar-Elái
 - Cyngor Cymuned Gwenfô
- BT Group Plc
- EE
- Vodaphone
- Three UK
- O2 UK
- Virgin
- Talk Talk
- Nwy Prydain
- EDF Energy
- Npower
- EON UK
- Scottish Power
- SSE
- National Grid
- Western Power Distribution
- Wales & West Utilities
- Dŵr Cymru
- Network Rail Infrastructure

Cyrrff Ymgynghori Cyffredinol

- ASau Cymru/ASau Gorllewin Caerdydd, De Caerdydd a Phenarth, Canol Caerdydd a Gogledd Caerdydd / Pedwar Aelod Rhanbarthol / ASau dros Ganol De Cymru

- Cymdeithas Tai Aelwyd
- Age Concern Cymru
- Age Connects
- Alternatives for Transport
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Associated British Ports
- Cymdeithas yr Awdurdodau Mordwyo Mewndirol
- Black Environment Network
- Cymdeithas Agregau Prydain
- Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain
- Busnes yn y Gymuned
- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC)
- Cymdeithas Tai Cadwyn
- Bwrdd Draenio Gwastadeddau Cil-y-coed a Lefelau Gwynllŵg
- Campaign for Real Ale
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
- Yr Ymddiriedolaeth Garbon
- Ffederasiwn Rhieni Caerdydd A'r Fro
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Tîm Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro
- Siambr Fasnach, Masnach a Diwydiant Caerdydd
- Cymdeithas Ddinesig Caerdydd
- Dinas Feicio Caerdydd
- Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd
- Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd
- Ymgyrch Feicio Caerdydd
- Cyfeillion y Ddaear Caerdydd
- Glanfa'r Hofrenyddion Caerdydd
- Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf
- Undeb Myfyrwyr Caerdydd
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Naturiaethwyr Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
- Clwb Busnes Menywod Caerdydd
- Bws Caerdydd
- YMCA Caerdydd
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- CBI Cymru
- Plant yng Nghymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Chwarae Teg
- CILT (UK) Cymru Transport
- Cyngor ar Bopeth
- Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru
- Yr Awdurdod Hedfan Sifil
- Yr Awdurdod Glo
- Coed Cadw
- Ynni Cymunedol Cymru

- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Gwasanaeth Cyngor Tir Cymunedol
- Cydffederasiwn Trafnidiaeth Teithwyr
- Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain
- Y Gymdeithas Tir Cefn Gwlad a Busnes
- Yr Adran Atal Troseddu
- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- Cymdeithas Gymunedol Danescourt
- Ystadau Amddiffyn
- Design Circle - RSAW South
- Comisiwn Dylunio Cymru
- Chwaraeon Anabledd Cymru
- Anabledd Cymru
- Diverse Cymru
- Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cyf
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Ffederasiwn y Prif Adeiladwyr
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Meysydd Chwarae Cymru
- FirstGroup Plc
- Cyfeillion y Ddaear Cymru
- Cyfeillion Coetir Cymunedol Nantfawr
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Cymdeithas Hanes Gardd
- Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent
- Sipsiwn a Theithwyr Cymru
- Y Gweithgor Iechyd a Diogelwch
- Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
- Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol
- Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd
- Cyngor Rhyngffydd Cymru
- Cadwch Gymru'n Daclus
- Grwp Cadwraeth Llandaf
- Sefydliad Tirwedd Cymru
- Linc Cymru
- Cymdeithas Gymunedol Llys-faen
- Cymdeithas Gwarchod Craig Llys-faen
- Strydoedd Byw Caerdydd
- Llamau
- Cymdeithas Llandaf
- Logistics UK
- Merched y Wawr
- Y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol
- Cymdeithas Gweithredwyr Ffonau Symudol
- Mudiad Ysgol Meithrin
- National Car Parks Limited
- Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru
- National Express Ltd
- Ffederasiwn Adeiladwyr Cenedlaethol

- Portffolio Eiddo'r Grid Cenedlaethol
- Amgueddfa Cymru
- Celf Ieuencid Genedlaethol
- Cymdeithas Tai Newydd
- NFU Cymru
- Cymdeithas Trigolion Pantmawr
- Cymorth Cynllunio Cymru
- Arolygiaeth Gynllunio
- Pobl
- Cymdeithas Gymunedol Radur a Phentre-poeth
- Partneriaeth ac Ymddiriedolaeth Gymunedol Radur a Phentre-poeth
(Partneriaeth ar gyfer Gweithredu Cymunedol/PACT)
- Cymdeithas Trigolion Seidins Radur
- Ramblers Cymru
- Grŵp Caerdydd Ramblers Cymru
- Cymdeithas Ddinesig Rhiwbeina
- Cymdeithas Trigolion Pentref Gardd Rhiwbeina
- RICS Wales
- Road Haulage Association Ltd
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Royal Mail Group plc
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion
- RSPB Cymru
- Scope Cymru
- Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
- Asiantaeth Ynni De-ddwyrain Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Heddlu De Cymru
- Chwaraeon Cymru
- Stonewall Cymru
- Sustrans Cymru
- Cymdeithas Tai Taf
- The 20th Century Society
- The Georgian Group
- Y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlogsfeydd
- Ymddiriedolaeth Theatrau
- Trafnidiaeth Cymru
- Urdd Gobaith Cymru – Caerdydd a'r Fro
- Victorian Society
- Cymdeithas Tai Wales & West
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Canolfan y Mileniwm
- Cymorth i Fenywod Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
- Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru
- Partneriaeth Tai Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cymdeithas yr Iaith
- Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
- Ffederasiwn Tenantiaid Cymru

- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru
- Women Connect First

Atodiad C: Tabl Crynhoi Cynhwysiad o ran Camau'r CDLI Newydd

Cam Ymgynghori	Diben	Amserlen	Crynodeb o'r Cyfranogiad	Dull Adrodd
Cytundeb Cyflawni	Nodi'r amserlen ar gyfer paratoi CDLI Newydd a'r broses o gymryd rhan.	Mis Ionawr tan fis Mawrth 2019	<ul style="list-style-type: none"> Ymgynghoriad 4 wythnos ar gynnwys y Cytundeb Cyflawni ym mis Ionawr/Chwefror 2021. 	<ul style="list-style-type: none"> Yr holl wybodaeth ar gael ar y wefan.
Sail dystiolaeth	Cael dealltwriaeth glir o'r nodweddion a'r materion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd deinamig sy'n bodoli yng Nghaerdydd. Fel rhan o'r gwaith hwn o gasglu wybodaeth bydd y Cyngor yn gwahodd datblygwyr a thirfeddianwyr i gyflwyno safleoedd datblygu ymgeisiol i'w cynnwys o bosibl yn y CDLI Newydd.	Rhag 2020 i Mawrth 2024 (gyda diweddariadau angenrheidiol wedi hynny)	<ul style="list-style-type: none"> Ymgynghoriad 8 wythnos ar Adroddiad Cwmpasu ACI Gwahoddiad i gyflwyno safleoedd posibl Cyfle i ymgysylltu, yn rhan o'r gwaith o baratoi Strategaeth a Ffefrir wedi ei amlinellu isod. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd gwybodaeth wedi'i diweddaru am y ddwy broses ar gael ar y wefan.
Y Strategaeth a Ffefrir	Datblygu gweledigaeth ac amcanion y CDLI Newydd drafft ar gyfer yr ardal, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r materion perthnasol. O'r sylfaen hon, caiff opsiynau strategol eu nodi a'u hasesu gan arwain at nodi safleoedd strategol i fwydo'r Strategaeth a Ffefrir. Ochr yn ochr â hyn, bydd yr ACI ac asesiadau eraill yn cael eu cynnal.	Mai 2021 i Medi 2023	<ul style="list-style-type: none"> Cymryd rhan mewn 'Digwyddiad Lansio' rhithiol yn datblygu Strategaeth a Ffefrir yn canolbwyntio ar gyfranogiad ynghylch gweledigaeth/amcanion drafft, tystiolaeth/problemau ac opsiynau strategol. Ymgynghoriad 8 wythnos ar y Strategaeth a Ffefrir ac ymgynghoriad cychwynnol ar adroddiad yr ACI. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd adroddiad yn cael ei baratoi yn nodi ymateb y Cyngor i'r holl sylwadau a wnaed ar y Strategaeth a Ffefrir ac Adroddiad Cychwynnol yr ACI. Yr holl wybodaeth ar gael ar y wefan.

Cam Ymgynghori	Diben	Amserlen	Crynodeb o'r Cyfranogiad	Dull Adrodd
Adneuo	Rhoi sylw dyledus i'r ymarferion ymgynghori a'r digwyddiadau rhanddeiliaid a'r digwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal a llunio ac ymgynghori ar CDLI Adneuo Newydd.	Hydref 2023 i Fedi 2025	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghoriad 8 wythnos ar y CDLI Adneuo Newydd ynghyd â'r Adroddiad ACI Terfynol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd adroddiad ymgynghori terfynol yn cael ei baratoi yn nodi ymateb y Cyngor i'r holl sylwadau a wnaed ar y Cynllun Adneuo Newydd ac Adroddiad Terfynol yr ACI. • Yr holl wybodaeth ar gael ar y wefan.
Cyflwyno CDLI Newydd i Lywodraeth Cymru	Cyflwyno'r Cynllun Newydd Adneuo Newydd, Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig, y Cynllun Cynnwys Cymunedau, copiâu o'r holl sylwadau a dderbyniwyd, tystiolaeth ategol allweddol, yr Adroddiad Ymgynghori, yr adroddiad ar y newidiadau a awgrymwyd gan yr ACLI a Datganiad o'r prif faterion i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio.	Mai 2025 (Dangosol)	<ul style="list-style-type: none"> • Ar ôl ei gyflwyno, bydd y broses archwilio yn cael ei chynnal gan Arolygydd Annibynnol. Swyddog Rhaglen annibynnol a gyflogir gan y Cyngor fydd yn darparu'r pwynt cyswllt cyntaf â rhanddeiliaid gan gynnig cyswllt rhwng yr awdurdod a'r Arolygydd. Bydd gwybodaeth ar gael am y broses archwilio fydd ar y gweill. 	<ul style="list-style-type: none"> • Yr holl wybodaeth ar gael ar wefan a llyfrgell yr archwiliad.

Cam Ymgynghori	Diben	Amserlen	Crynodeb o'r Cyfranogiad	Dull Adrodd
Archwiliad annibynnol	Yn dilyn cyflwyno hwn penodir Arolygydd i archwilio'r Cynllun Adneuo Newydd i benderfynu a yw'n bodloni gofynion paratoi Deddf 2004 ac a yw'n "gadarn" Bydd yr archwiliad hefyd yn ystyried sylwadau gan gynnwys gwrthwynebiadau a wnaed yn unol â Rheoliadau'r CDLI.	Mai i Hydref 2025 (Dangosol)	<ul style="list-style-type: none"> I'r rheiny a wnaed Sylwadau Adneuo caiff trefniadau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd yn y broses archwilio eu hysbysebu'n nes at yr amser (o leiaf 6 wythnos cyn agor yr archwiliad). 	<ul style="list-style-type: none"> Yr holl wybodaeth ar gael ar wefan a llyfrgell yr archwiliad.
Adroddiad yr Arolygwyr	Bydd yr Arolygydd yn cyhoeddi adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r archwiliad, ynghyd ag unrhyw newidiadau i'r Cynllun Adneuo a'r rhesymau dros yr argymhellion hynny. Bydd penderfyniadau'r Arolygydd yn rhwymo'r Cyngor.	Hydref 2025 (dangosol)		

Cam Ymgynghori	Diben	Amserlen	Crynodeb o'r Cyfranogiad	Dull Adrodd
Mabwysiadu	Mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu'r CDLI terfynol sy'n cynnwys argymhellion yr Arolygydd o fewn 8 wythnos i'w dderbyn, oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ymyrryd.	Tachwedd 2025 (dangosol)	<ul style="list-style-type: none"> Ar neu cyn y diwrnod y mabwysiedir y CDLI Newydd, bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd ac yn sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio ac i'w weld ar wefan y Cyngor. Bydd y CDLI Newydd yn dod yn weithredol ar y dyddiad y caiff ei fabwysiadu, a dylai cyhoeddi'r Cynllun Newydd terfynol ddilyn cyn gynted â phosibl (ar ôl i'r cyfnod her gyfreithiol o chwe wythnos ddod i ben). 	

Atodiad D: Rheoli Risg

Ystyrir bod yr amserlen arfaethedig ar gyfer paratoi CDLI Newydd yn realistig ac yn gyraeddadwy o ystyried cwmpas y gwaith y tybia'r Cyngor sydd yn gysylltiedig ag ystyried rheoliadau a chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru, a'r adnoddau y gall y Cyngor eu hymrwymo i baratoi CDLI Newydd. Er y gwneir pob ymdrech i osgoi gwyradau o'r amserlen arfaethedig, mae'r Cyngor wedi nodi nifer o risgiau posibl a nodir isod, ynghyd â dull arfaethedig y Cyngor o'u rheoli. Bydd yr amserlen, ynghyd â'r rhaglen waith ddisgwyliedig a'r adnoddau sydd ar gael yn cael eu hadolygu'n barhaus i fonitro llithriant posibl neu effeithiau eraill sy'n deillio o'r risgiau a nodwyd neu achosion eraill. Lle bo angen, bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu gwneud i Gabinet y Cyngor.

Risg	Effaith Bosibl	Lliniaru
<ul style="list-style-type: none"> Gofynion ychwanegol sy'n deillio o ddeddfwriaeth newydd, canllawiau cenedlaethol a/neu dystiolaeth newydd 	<ul style="list-style-type: none"> Gofyn am waith ychwanegol, gan achosi llithriant i raglenni 	<ul style="list-style-type: none"> Monitro deddfwriaeth/canllawiau/tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ac ymateb yn gynnar i newidiadau
<ul style="list-style-type: none"> Rhaglen/amserlen yn rhy uchelgeisiol ar gyfer yr adnoddau sydd ar gael oherwydd llwyth gwaith mwy na'r disgwyl e.e. nifer y sylwadau 	<ul style="list-style-type: none"> Llithriant rhaglenni 	<ul style="list-style-type: none"> Amserlen realistig wedi'i pharatoi gyda rhywfaint o hyblygrwydd Ystyried adnoddau vchwanegol pan fo angen
<ul style="list-style-type: none"> Dim digon o wybodaeth i alluogi paratoi Cynllun Newydd cadarn (e.e. amcanestyniadau poblogaeth cyfredol) i ymgymryd ag AAS o gynigion 	<ul style="list-style-type: none"> Llithriant rhaglenni 	<ul style="list-style-type: none"> Nodi disgwyliadau ymgynghoreion yn y Cytundeb Cyflawni
<ul style="list-style-type: none"> Oedi a achosir gan y Cyngor yn oedi cyn cymeradwyo dogfennau 	<ul style="list-style-type: none"> Llithriant rhaglenni 	<ul style="list-style-type: none"> Ymgymryd â'r broses graffu ynghyd â Briffio Ehangach ar Aelodau i godi ymwybyddiaeth
<ul style="list-style-type: none"> Oedi a achosir drwy amserlennu cyfarfodydd Busnes Cabinet, Cynllunio neu Bwyllgorau Craffu 	<ul style="list-style-type: none"> Llithriant rhaglenni 	<ul style="list-style-type: none"> Monitro cynnydd yn erbyn y Cytundeb Cyflawni Trefnu cyfarfodydd targed ym Mlaengynllun y Cyngor
<ul style="list-style-type: none"> Gwrthwynebiadau Sylweddol gan Gyrrff Ymgynghori Statudol 	<ul style="list-style-type: none"> Does dim modd cyflwyno CDLI Newydd i'w archwilio heb waith sylweddol 	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau y ceisir ac ystyrir barn cyrff statudol cyn gynted â phosibl
<ul style="list-style-type: none"> Arolygiaeth Gynllunio yn methu â bodloni'r amserlen ar gyfer archwilio ac adrodd 	<ul style="list-style-type: none"> Mae oedi wrth archwilio a/neu adrodd Carreg filltir allweddol yn y rhaglen nas bodlonir 	<ul style="list-style-type: none"> Cysylltu'n agos â'r Arolygiaeth Gynllunio i sicrhau rhybudd cynnar o unrhyw broblemau (e.e. Ymgynghori ar y CDLI Newydd)
<ul style="list-style-type: none"> CDLI Newydd yn methu prawf cadernid 	<ul style="list-style-type: none"> Does dim modd mabwysiadu CDLI Newydd heb waith ychwanegol 	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod CDLI Newydd yn gadarn, yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn gydag arfarnu cynaliadwyedd ac archwilio da ar ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid

<ul style="list-style-type: none"> • Her gyfreithiol 	<ul style="list-style-type: none"> • CDLI Newydd wedi'i fabwysiadu yn cael ei ddi-ddymu 	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau y cydymffurfir â gweithdrefnau, Deddfau, Rheoliadau ac ati, ac ni chymerir
<ul style="list-style-type: none"> • Cyfyngiadau Covid 	<ul style="list-style-type: none"> • Oedi wrth ymgynghori • Llithriant rhaglenni • Adnoddau (yn enwedig staff a chyllid) yn cael eu dargyfeirio pe bai eu hangen i fynd i'r afael ag ymdrechion Coronafeirws 	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau defnydd effeithiol o ddulliau ymgynghori ar-lein, gan gynnwys technoleg ymgynghori rithwir, defnydd effeithiol o wefannau, cyfryngau cymdeithasol a chyfleoedd ehangach i ymgysylltu fel arall a chyfathrebu â Thîm y CDLI. Monitro effeithiau proses CDLI Newydd y pandemig ac ymateb yn gynnar i newidiadau.

Atodiad H: Copi o Lythyr Cytundeb i'r ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru



Ein cyf/Our ref: qA1467672

Stuart Williams
Arweinydd Grŵp (Polisi)
Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd
Cyngor Caerdydd
Ystafell 219 Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

06 Gorffennaf 2023

CDLI Cyngor Caerdydd: Adolygiad 1af Cytundeb Cyflawni

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd)

Diolch am eich e-bost dyddiedig 3 Gorffennaf yn gofyn am gytundeb i ddiwygio eich Cytundeb Cyflawni (CC) er mwyn gwneud gwaith ychwanegol yn seiliedig ar dystiolaeth cyn yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir.

Mae paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn ddyletswydd statudol a roddwyd ar bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) yng Nghymru. Mae cael cynllun datblygu cyfredol ar waith yn sail i sylfaen y system gynllunio yng Nghymru ac yn atgyfnerthu ymrwymiad y Llywodraeth i ddull o ddatblygu dan arweiniad cynllun.


Mae'r cynllun yn adnodd corfforaethol ac yn fynegiant o flaenoriaethau ACLI mewn perthynas a defnydd tir wrth ddelio â materion cenedlaethol a lleol, ac mae'r CC yn ymrwymiad gan eich awdurdod i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol hyn. Mae eich Cyngor yn cynnig estyniad ffurfiol i'r amserlen y cytunwyd arni ar hyn o bryd, sy'n arwain at oedi o 9 mis gyda'ch ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir sydd bellach wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2023 ac ymgynghoriad ar y Cynllun wedi'i Adneuo ar gyfer mis Gorffennaf 2024. Bwriedir cyflwyno'r cynllun i'w archwilio ym mis Mai 2025 a rhagwelir y caiff ei fabwysiadu ym mis Tachwedd 2025 (Tabl 1). Cafodd gwaith paratoi'r cynllun ei oedi i'ch awdurdod wneud gwaith ychwanegol yn seiliedig ar dystiolaeth cyn y camau ymgynghori ffurfiol. Wrth ystyried hyn, mae rheoli prosiectau yn effeithiol a thîm llawn adnoddau yn hanfodol i sicrhau y gellir paratoi'r cynllun yn unol â'r amserlenni a nodir yn Nhabl 1 ac Atodiad B y CC gydag un cyfnod llithro ychwanegol o 3 mis fel y cyfeirir ato ym mharagraffau 1.29 a 4.2.

Y prawf o 'gadernid' y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn ei erbyn drwy'r archwiliad yw'r proses o brofi a yw'n cadw at y CC y cytunwyd arno gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS). Bydd angen i'r cynllun hefyd ddangos cydymffurfiaeth gyffredinol â Chymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040.

Ar ôl ystyried y CC a gyflwynwyd gennych, gallaf **gadarnhau cytundeb** i'r amserlen a nodir yn Nhabl 1 ac Atodiad B fel y darperir ar ei gyfer gan Adran 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd).

Dylai'r fersiwn a gyhoeddwyd o'ch CC nawr fod ar gael i'r cyhoedd yn unol â'r gofynion a nodir yn Rheoliad 10.

Yn gywir,



Neil Hemington
Prif Gynllunydd
Chief Planner